# rydym yn recriwtio

## uchafbwyntiau y swydd












# Cynorthwyydd Bwyd a Diod / Blaen Tŷ

## Gwybodaeth allweddol

Cyflog : £11.59 yr awr
Oriau :  oriau amrywiol ar gael
Contract : Llawn amser, Rhan amser ac Oriau Achlysurol ar gael

## Ynglŷn â'r Swydd

Mae gennym swyddi ar gael mewn safleoedd yn y Rhyl, Prestatyn a Rhuthun, o geinder hamddenol 1891, i ymdeimlad egsotig Ibiza yng Nghwt y Traeth,  a Chaffi R, ym muriau y Gnaolfan Grefftau yn Rhuthun. Mae'r holl gyfleusterau ar agor 7 diwrnod yr wythnos, ac rydym yn croesawu ceisiadau gan rai sy'n chwilio am waith llawn amser neu ran amser.

Byddwch yn gyfrifol am gyfarch cwsmeriaid a rhoi croeso iddynt. Bydd arnoch angen cymryd archebion bwyd a diod, prosesu taliadau, danfon yr archebion a chlirio byrddau. Mae eich rôl yn bwysig i sicrhau bod y cwsmer yn teimlo'n hapus gyda'u hymweliad, a gallwch wneud y gwahaniaeth i sicrhau bod rhywun yn dod yn ôl ac yn ein hargymell i eraill neu beidio.

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm, gan wneud yn siŵr bod y safle'n lân a thaclus, nôl mwy o stoc pan fydd y cyflenwad yn isel a darparu gwasanaeth cyffredinol rhagorol i gwsmeriaid. Rydym yn gweini ar filoedd o gwsmeriaid ac mae'n bwysig i ni bob pob un ohonynt eisiau dod yn ôl.

**Mae'r pecyn yma ar gael yn Saesneg hefyd / This pack is also available in English**



# Cynorthwyydd Bwyd a Diod / Blaen Tŷ

## Amdanoch Chi

Nid oes angen unrhyw brofiad na chymwysterau arnoch, mae gennym lawer mwy o ddiddordeb ynoch chi fel unigolyn. Gallwn roi hyfforddiant i chi yn yr holl feysydd penodol ar gyfer y swydd.
Bydd ein hymgeisydd delfrydol yn rhywun sy'n hoffi bod yn gymdeithasol ag eraill, sydd wir yn mwynhau siarad â phobl a bod o'u cwmpas. Byddwch yn barod eich gwên a bob amser yn torchi llewys a helpu i wneud y gwaith. Rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu gweithio'n gyflym ac sy'n falch o'r hyn maen nhw'n ei wneud.
Rydym yn denu miloedd o bobl leol ac ymwelwyr i'r ddau safle drwy gydol y flwyddyn. Felly, mae arnom angen rhywun sy'n gallu gweithio'n gyflym, ac sy'n mwynhau bod yn brysur. Byddwch yn gyfeillgar, yn agos atoch ac yn hoffi helpu.
Rydym yn chwilio am bobl yn nifer o'n safleoedd ar yr arfordir, felly cofiwch roi gwybod ym mha un y mae gennych fwyaf o ddiddordeb ynddo:

- Cwt y Traeth - bwyty ar lan y môr â bwydlen fodern ac ymdeimlad o'r haf
- Bwyty 1891 - bwyty soffistigedig ble gallwch fwyta dan do neu yn yr awyr agored
- **Caffi R -** wedi'w leoli ym muriau y Ganolfan Grefftau




# Cynorthwyydd Bwyd a Diod / Blaen Tŷ

## Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy’n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

## Ein Gwerthoedd

- Uchelgais a Thwf
- Ymddiriedolaeth ac Uniondeb
- Rhagoriaeth a Gwydnwch
- Balchder ac Angerdd



# Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr Hamdden Sir Ddinbych Cyf hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Lwfans gwyliau blynyddol yn dechrau ar 25 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i brynu mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisïau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

**Lleoliad:** swyddi ar gael ar draws y Rhyl, Prestatyn a Rhuthun
**Dyddiad cau: Dydd Mawrth, 17eg Medi, 2024**
**Gwnewch gais trwy ein gwefan:**
https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/